# Cylchred oes seren

**AIYSHA** Wyt ti wedi gweld pwy sy’ ar *Big Star Survival*?

Y… Na fi ’chwaith. Dw i’m ’di clywed am ’run ohonyn nhw – dydyn nhw’m yn sêr go iawn.

**ADA** Pori trwy fas data seryddiaeth. Chwilio am “sêr”.

**AIYSHA** Dim y sêr yna! Mae’n hen bryd i mi gael gwared ar yr ap ’ma.

**ADA** Mae sêr yn ffurfio pan mae grymoedd disgyrchiant o nwy a llwch yn casglu i un pwynt.

Mae hyn yn arwain at wasgedd uchel iawn ac mae adwaith niwclear yn digwydd tu fewn i’r seren newydd. Gydag amser, mae’n poethi a phoethi nes mae’n dechrau tywynnu.

Protoseren yw hon - y cam cyntaf yn oes pob seren. Pan fydd y gwasgedd mewnol a’r gwasgedd disgyrchiant yn sefydlogi, bydd seren yn cael ei chreu.

Yn dibynnu ar ei maint, gall cylchred oes seren fynd i un o ddwy ffordd.

Un, mae’r protoseren yn datblygu’n seren prif ddilyniant, gyffredin. O’i chymharu â sêr eraill, nid yw’n fawr - tua’r un maint â’n Haul ni. Wrth iddi ddod at ddiwedd ei hoes, daw tanwydd yr adwaith niwclear i ben.

Mae’r gwasgedd sy’n gwthio allan yn cynyddu ac yn trechu’r pwysau disgyrchiant mewnol. Mae’r seren yn tyfu’n fwy ac yn troi mewn i gawr coch sy’ ddim mor boeth ag yr oedd o’r blaen.


© Hawlfraint BBC

Yna, wrth i danwydd adwaith niwclear ddod i ben, mae'r seren a oedd yn fawr yn lleihau. Corrach gwyn yw hi nawr. Yn y pen draw, bydd hi'n marw, ac yn troi'n gorrach du.

**AIYSHA** Ti'n werth dy gadw, Ada. Mae hyn yn epic!

**ADA** Neu, dau, mae'r protoseren yn tyfu'n seren enfawr, sef gorgawr.

Cam cyntaf marwolaeth y seren yma yw troi'n gorgawr coch. Yn y pen draw, bydd ei maint yn achosi i'r craidd ddatgymalu, a bydd gwasgedd mewnol yn achosi i'r seren ffrwydro. Yr enw ar hyn yw uwchnofa.

O'r pwynt yma, gall barhau fel seren niwtron, neu gwympo a throi'n dwll du. Nawr rwyt ti'n gwybod mwy am gylchred oes sêr go iawn!

**AIYSHA** Waw! Eitha cŵl, dydy, Steve? Steve?

Ha ha! Dd'wedai ddim wrth neb, Steve!


© Hawlfraint BBC